# ADRODDIAD BLYNYDDOL

# CYNGOR CYMUNED HARLECH

# 2023/2024

## GAIR GAN Y CADEIRYDD – Y CYNG. EDWINA EVANS

Mae'n bleser cyflwyno ail adroddiad blynyddol Cyngor Cymuned Harlech sy'n cofnodi'r gwaith sydd wedi ei gyflawni yn 2023/24 a sut rydym yn gweithio gyda'r gymuned a phartneriaid i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y dref i wneud Harlech yn le hyd yn oed gwell i fyw ac ymweld â hi. Y weledigaeth yw i "sicrhau bod Harlech yn parhau i fod yn le braf a chroesawgar i bobl o bob oed fyw oherwydd byddant yn teimlo'n ddiogel, a bydd ganddynt gyfleodd i fod yn iach yn gorfforol ac yn feddyliol ac i gymdeithasu a gweithio mewn amgylchedd o ansawdd. Bydd hefyd yn le sy'n croesawu ymwelwyr ac yn cyd-fyw gyda hwy'n rhwydd." Bwriad yr adroddiad yw rhoi blas o waith y Cyngor Cymuned yn ystod y flwyddyn a sut mae'r Cyngor yn hyrwyddo bywyd i drigolion o bob oed, perchnogion busnesau, cymdeithasau ac ymwelwyr i'r dref. Rydym yn cydnabod bod hyn mewn hinsawdd heriol i bawb ac wedi ymrwymo i gyd-weithio gyda'r gymuned a phartneriaid i wireddu'r weledigaeth. Er bod digon o heriau i ni fel Cyngor Cymuned, rydym wedi llwyddo i gyflawni nifer o brosiectau cyffroes. Mae wedi bod yn fraint cael bod yn Gadeirydd y Cyngor Cymuned.

### Aelodaeth

Cyng. Edwina Evans (Cadeirydd)
Cyng. Christopher Braithwaite (Is-Gadeirydd)
Cyng. Mark Armstrong – ymddiswyddo Medi 2023
Cyng. Giles Bentham – ethol Ionawr 2024
Cyng. Rhian Corps
Cyng. Ceri Griffiths
Cyng. Emma Howie – ymddiswyddo Mawrth 2024
Cyng. Gordon Howie
Cyng. Martin Hughes
Cyng. Tegid John
Cyng. Huw Jones – ymddiswyddo Chwefror 2024
Cyng. Thomas Mort

Cyng. Wendy Williams

Mae dau Gynghorydd yn cynrychioli’r ardal ar Gyngor Gwynedd sef y Cyng. Annwen Hughes ar Cyng. Gwynfor Owen.

Am y tro cyntaf mewn 44 mlynedd cynhaliwyd etholiad ar gost o £2,626 i'r Cyngor Cymuned i ethol Cynghorydd Cymuned i lenwi y sedd wag oedd yn bodoli ar y Cyngor Cymuned yn dilyn ymddiswyddiad y Cyng. Mark Armstrong ym mis Medi 2023. Etholwyd y Cyng. Giles Bentham yn briodol i lenwi'r sedd wag a llofnododd ei ffurflen Datganiad Derbyn Swydd yng nghyfarfod mis Ionawr 2024 y Cyngor Cymuned. Yn anffodus mae dau Gynghorydd arall wedi ymddiswyddo o'r Cyngor Cymuned sef y Cynghorydd Huw Jones yn mis Chwefror a'r Cynghorydd Emma Howie ym mis Mawrth ac mae'r broses o ailethol eu olynwyr ar y gweill.

## Staff

Mae gan y Cyngor un aelod o staff, Annwen Hughes, sy'n Glerc a Swyddog Cyllid. Mae hi'n gweithio'n rhan-amser. Gellir cysylltu â'r Clerc drwy e-bost clerk@cyngorharlech.co.uk , llythyr I Crafnant, Llanbedr, Gwynedd LL45 2PH neu ffonio 01341241613/07919582741.

## Cyfarfodydd

Cynhelir cyfarfodydd arferol y Cyngor yn fisol ag eithro mis Awst yn yr Hen Lyfrgell yn y dref ar nos Llun cyntaf pob mis heblaw mis Mai pan gynhelir y cyfarfod ar yr ail ddydd Llun oherwydd gŵyl y banc.

## Safle We

Mae gwybodaeth am y Cyngor Cymuned gan gynnwys rhaglenni cyfarfodydd, cofnodion cyfarfodydd, polisïau a newyddion ar safle We’r Cyngor: [www.cyngorharlech.co.uk](http://www.cyngorharlech.co.uk)

**AELODAETH ALLANOL**

Mae'r Cyngor Cymuned yn aelod o Un Llais Cymru, sef y prif gorff cynrychioliadol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru. Mae'r Cyngor Cymuned yn ethol Aelodau i gyrff allanol eraill, sef Pwyllgor yr Hen Lyfrgell, Pwyllgor y Neuadd Goffa a Chorff Llywodraethol Ysgol Tan y Castell.

**Atebolrwydd**

Mae'r Cyngor Cymuned wedi mabwysiadu cod ymddygiad aelodau a chedwir cofrestr o fuddiannau ar gyfer pob aelod. Mae gofyn i'r Cynghorwyr ddatgelu unrhyw fuddiannau sydd ganddynt am eitemau i'w trafod ar gychwyn bob cyfarfod a bydd y rhain yn cael ei nodi yn y cofnodion.

Mae cyfrifon y Cyngor Cymuned yn cael eu harchwilio gan archwilydd mewnol ac allanol yn flynyddol. Mae'r archwiliad mewnol yn cael ei gynnal gan Adran Archwilio Cyngor Gwynedd, a'r Archwiliad Allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

**CYLLID A GWARIANT**

Mae'r Cyngor Cymuned yn gosod cyllideb yn flynyddol ac yn monitro gwariant yn erbyn y gyllideb drwy gydol y flwyddyn ariannol drwy dderbyn adroddiad rheolaidd gan y Clerc. Prif ffynhonnell incwm y Cyngor Cymuned yw'r praesept sy'n cael ei osod yn flynyddol a'i gyflwyno i Gyngor Gwynedd ym mis Ionawr ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol. Mae'r praesept yn cael ei gasglu ar ran y Cyngor Cymuned gan Gyngor Gwynedd a dyma'r unig ffynhonnell refeniw treth sydd ar gael i Gynghorau Tref a Chymuned. Mae'r broses o benderfynu ar lefel y praesept yn cynnwys paratoi cyllideb ddrafft ar sail sefyllfa ariannol y Cyngor Cymuned drwy ystyried y costau tebygol, cynlluniau ar gyfer prosiectau, pennu swm ar gyfer cyfraniadau - o fewn y canllawiau a gyhoeddir yn flynyddol - ac unrhyw faterion ariannol eraill. Rhoddir ystyriaeth hefyd i'r gwarchodfeydd a ddelir gan y Cyngor Cymuned

i sicrhau bod praesept priodol yn cael ei osod. Cafodd lefel y praesept ei gadw ar £70,000 ar gyfer 2023/24. Yn ogystal, derbyniodd y Cyngor Cymuned £7,056.71 o'r Cynllun Parcio 10% gan Gyngor Gwynedd a ymunodd ag ef rai blynyddoedd yn ôl.

Incwm a Gwariant 2023/24

| | Incwm | Gwariant |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Llogau Banc | 1,146.71 | |
| Precept | 70,000.00 | |
| Incwm y Fynwent | 8,418.72 | |
| Rhent Rhandiroedd | 375.00 | |
| Grant PACT | 249.25 | |
| Llogi cae chwarae Brenin Sior | 150.00 | |
| Iawndal gan HSBC | 100.00 | |
| Ad-daliad incwm meusydd parcio | 7,056.71 | |
| Ad-daliad torri gwair llwybrau | 990.35 | |
| Ad-daliad T.A.W | 5,851.34 | |
| Torri Gwair Llwybrau Cyhoeddus | | 2,133.00 |
| Torri Gwair Cae Chwarae Brenin Sior | | 1,734.00 |
| Torri Gwair y Fynwent | | 2,052.00 |
| Gwariant yn y Fynwent | | 3,260.00 |
| Codi wal derfyn | | 180.00 |
| Torri coed ger Llwybr Natur | | 600.00 |
| Nwyddau Gardd Gymunedol | | 243.68 |
| Offer chwarae Newydd | | 26,982.00 |
| Archwiliad Parciau Chwarae | | 324.00 |
| Creu llwybr parc chwarae | | 900.00 |
| Archebu a gosod bollards | | 1,318.16 |
| Gwaredu sedd | | 360.00 |
| Nwyddau toiledau (toiledau castell) | | 384.72 |
| Glanhawr toiledau (toiledau castell) | | 1,430.23 |
| Partneriaeth toiledau | | 10,000.00 |

| | | |
|---|---|---|
| Dwr Cymru (toiledau) | | 792.37 |
| Dwr Cymru (rhandiroedd) | | 28.98 |
| Cyfraniadau | | 5,650.00 |
| Pwyllgor Neuadd Goffa | | 2,000.00 |
| Pwyllgor Hen Lyfrgell | | 2,000.00 |
| Cyfraniad i HAL | | 21,000.00 |
| Cyflog y Clerc | | 1,764.00 |
| Costau y Clerc | | 910.45 |
| Costau Swyddfa | | 250.00 |
| Treth ar gyflog y Clerc | | 439.80 |
| P.A.Y.E ar lein | | 216.00 |
| Llogi Ystafell Bwyllgor | | 177.00 |
| Treth Cwrt Tennis | | 22.74 |
| Creu wefan newydd | | 650.00 |
| Cynnal y Wefan | | 285.99 |
| Insiwrant y Cyngor | | 1,709.15 |
| Gwagio Biniau cae chwarae | | 866.11 |
| Gwaredu tyrchod | | 150.00 |
| Gwaredu hemlock | | 150.00 |
| Goleuadau nadolig | | 1,200.00 |
| Ffair Mop Harlech | | 1,610.00 |
| Archwiliad Mewnol 2022/23 | | 294.00 |
| Archwiliad Allanol 2020/21 & 2021/22 | | 1,700.00 |
| Hysbyseb papur newydd | | 708.60 |
| Etholiad Cyngor Cymuned | | 2,626.20 |
| Tal aelodaeth Un Llais Cymru | | 334.00 |
| Cwrs hyfforddiant Un Llais Cymru | | 38.00 |
| Amrywiol | | 164.70 |
| Costau Banc | | 114.40 |
| | £94,338.08 | £99,754.28 |

# CYLLIDEB

Presept y Cyngor yw £70,000 a mae yn cael ei glustnodi fel a ganlyn:-

Yn cyfranu £10,000 i Gyngor Gwynedd at gadw'r toiledau cyhoeddus yn agored (rhai yn maes parcio Bron y Graig Isaf a rhai ger tafarn y Queens yn agored drwy'r flwyddyn a rhai yn maes parcio Min y Don yn agored am 6 mis o'r flwyddyn)

Hefyd wedi cyfrannu £21,000.00 yn ystod y flwyddyn ariannol hon I Hamdden Harlech ac Ardudwy (HAL) er mwyn cadw y pwll nofio yn agored.

Hyd yma wedi gwario £1,177.90 at gynnal y toiledau cyhoeddus ger y Neuadd Goffa, ag hefyd mae y Cyngor wedi talu £1,430.23 I ofalwr am lanhau y toiledau hyn yn ddyddiol. Mae y Cyngor yn cau y toiledau hyn dros tymor y gaeaf fel y gallant wneud mwy o waith cynnal a chadw arnynt.

Gwariodd y Cyngor £26,982.00 ar offer chwarae newydd ym mharc chwarae Brenin Siôr V a hefyd £900 i greu llwybr defnyddiwr anabl o'r ffordd i'r man chwarae. Roedd y gwariant hwn ar y maes chwarae yn uwch na'r hyn a gyllidebwyd yn wreiddiol, ond cytunodd yr Aelodau fod yn rhaid gwneud y gwaith hwn gan fod llawer o'r cyhoedd yn cwyno nad oedd digon o offer chwarae ym mharc chwarae Brenin Siôr V i ddiddanu plant ac I'w cael oddi ar y stryd.

Mae y Cyngor yn gwario swm sylweddol I dorri gwair y fynwent gyhoeddus, parc chwarae Llyn y Felin a Brenin Sior V yn rheoliadd bob pythefnos yn ystod Ebrill I Hydref. Hefyd mae gwair amrywiol lwybrau cyhoeddus yn cael ei dorri beth bynnag ddwy waith y flwyddyn. Y gost o

wneud y gwaith hwn I gyd yn ystod y flwyddyn ariannol hon oedd £5,919. Mae y Cyngor hefyd wedi gwario £3,260 ar agor beddi yn y fynwent gyhoeddus.

Yn cyfranu I wahanol fudiadau yn yr ardal yn flynyddol a wedi cyfranu £3,000 I Gyfeillion Ysgol Tan y Castell £2,000 I Ysgol Feithrin Harlech, a £650 tuag at brynu dau Plac Glas i goffáu pobl adnabyddus oedd yn byw yn y dref. Mae £2,000 yr un yn flynyddol yn cael ei gyfranu at gadw y Neuadd Goffa ar Hen Lyfrgell oherwydd bod y Cyngor Cymuned yn Ymddiredolwyr ar y ddau sefydliad hyn. Mae y cyfraniadau hyn yn cael eu cynnwys yn precept y Cyngor.

Hyd yma mae y Cyngor wedi cyfranu £1,200 tuag at y goleuadau nadolig yn yr ardal a £1,610 er mwyn I’r Ffair Mop gael ei chynnal yn y dref.

Yn anffodus ganol mis Rhagfyr 2022 gafodd y Cyngor ei dwyllo yn ariannol allan o £9,000 gan berson oedd yn honni ei fod yn mynd I gario allan gwaith ymgynghorol. Mae'r mater hwn, ar hyn o bryd, yn destun ymchwiliad gan yr Ombwdsmon Ariannol ac mae disgwyl am eu canlyniad o hyd.

Ar y 7ed o Dachwedd 2023 fe dderbyniodd y Cyngor adroddiad er budd y cyhoedd i Gyngor Cymuned Harlech. ‘Roedd yr adroddiad yn adlewyrchu'r sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r dogfen ystyried a anfonwyd at Archwilo Cymru. Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi’r adroddiad hwn o dan bwerau a roddwyd gan adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Cafodd gopi o’r adroddiad gael ei gyhoeddi ar gwefan Archwilio Cymru ar yr 8ed o Tachwedd 2023.

# Gwaith y Cyngor a cyfrifoldebau

## Rheoli eiddo

2 barc chwarae sef Brenin Sior V a LLyn y Felin

Y Fynwent Gyhoeddus

Y Llwybrau Cyhoeddus

Llwybr Natur Bron y Graig

Llochesi Bws yn yr ardal

Plinth yn Pen y Graig

Yr Hen Ladd-dy

Seddi Cyhoeddus

## Gweinyddiaeth

Penodwyd Cyngor Gwynedd fel archwiliwr Mewnol 2023/24

Lwfansau – adolygu dim newid, dim taliadau

Gwefan y Cyngor

Cadw asesiad risg.

Cadw cofnod buddiant